**ATODIAD 3**

**ARBEDION**

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Mae nifer o gynlluniau arbed sydd yn deillio o'r rhaglenni blaenorol hyn wedi llithro i 2023/24, ac wedi eu hychwanegu i'r cynlluniau oedd eisoes wedi eu rhaglenni i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn hon.
4. Canlyniad hyn yw fod gwerth £950,250 o gynlluniau arbedion oedd eisoes yn bodoli i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2023/24. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ac fe'i rhestrir isod er gwybodaeth.

| Arbediad | Swm £ |
|---|---|
| **ADRAN ECONOMI A CHYMUNED** | |
| Gwelliannau yn Neuadd Dwyfor i'w wneud yn fwy effeithlon wrth baratoi ar gyfer y dyfodol | 15,000 |
| **ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | |
| Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn | 300,000 |
| Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth | 534,000 |
| Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion | 101,250 |
| **CYFANSWM ARBEDION 2023/24 WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL** | **950,250** |

5. Mae adroddiad ar wahân ar raglen y Cabinet yn cynnwys rhestr o arbedion pellach arfaethedig ar gyfer eu gwireddu yn 2023/24, gyda chyfanswm gwerth o **£3,097,370**.
6. Yn ogystal â'r arbedion hyn, mae gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau arbed hefyd. Mae Atodiad 5 yn ymdrin yn benodol â chyllidebau'r ysgolion, ac fe welir yno fod gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion hefyd yn anorfod erbyn 2023/24. Argymhellir gweithredu capio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol, a pheidio cyflwyno toriadau ar y sector arbennig. Bwriedir gweithredu'r toriad yma dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25, fel y gwelir yn y tabl isod:

| Ysgolion<br>(Sector) | 2023/24<br>(7/12ed)<br>£ | 2024/25<br>(5/12ed)<br>£ | Cyfanswm<br><br>£ |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 541,600 | 386,900 | **928,500** |
| Uwchradd | 605,000 | 432,600 | **1,037,600** |
| Arbennig | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **1,146,600** | **819,500** | **1,966,100** |

7. Mae’r Llywodraeth eisoes wedi nodi y bydd y cynnydd yn y setliad yn llai ar gyfer 2024/25 (cyfartaledd Cymru yn gynnydd o 3%), felly disgwylir y bydd angen paratoi i weithredu’r cynlluniau hynny sydd dan sylw yn yr adroddiad arbedion sydd ar raglen y Cabinet. O wireddu gwerth £6.4m o arbedion a argymhellir, byddant yn dod i rym yn unol â’r proffil isod:

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 YMLAEN**

| | 2023/24<br>£ | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion (heb ysgolion) | 3,097,370 | 2,848,630 | 450,000 | **6,396,000** |

8. Felly, i grynhoi, argymhellir gweithredu’r arbedion canlynol yng nghyllideb 2023/24:

| | £ |
|---|---|
| Arbedion presennol sydd wedi eu cymeradwyo’n flaenorol | 950,250 |
| Arbedion newydd (heb gynnwys ysgolion) | 3,097,370 |
| Arbedion Ysgolion | 1,146,600 |
| **CYFANSWM** | **5,194,220** |